

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 24 MEDI 2026

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD FEL CYFARFOD HYBRID YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 1/2/3, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 24 MEDI 2026 AM 10:00

Yn bresennol – Yn rhithwir (Aelod Lleyg)

A Bagley – Is-gadeirydd

Yn bresennol

M L Hughes

Yn bresennol – Yn rhithwir

A R Berrow

RL Penhale-Thomas

Yn bresennol – Aelod Lleyg

B Olorunnisola

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Easterbrook

R Granville

S Griffiths

D Austin (Aelod Lleyg)

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

Swyddogion:

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 24 MEDI 2026

Jake Morgan
Carys Lord
Claire Marchant
Stacey Forde
Kelly Watson
Paul Miles
Stuart Mander
Joanne Norman
Rachel Keepins
Nigel Smith
Kate Pask
Andrew Wathan
Joan Davies
Helen Goddard
Seth Newman
David Williams
Samantha Clements
Catrin McCarthy
Jemma Trivett
Oscar Roberts
Stephen Griffiths
Nimi Chandasena

Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Pennaeth Perfformiad a Newid Diwylliannol y Gweithlu
Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoliadol ac Etholiadol
Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol
Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Tai a Digartrefedd
Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd
Rheolwr Perfformiad Corfforaethol
Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cymorth

314. Cymeradwyo'r Cofnodion

Penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

315. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Atodiad A). Gofynnodd yr Is-gadeirydd a oedd modd cynnwys dyddiad pendant yn yr Adroddiad ar y Cofnod Gweithredu pan fyddai adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) ar Harbwr Porthcawl yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a darparu sylwadau, fel oedd yn briodol.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

316. Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2025-26

Penderfyniad a wnaed	Gohiriwyd yr eitem hon i Gyfarfod Eithriadol o'r Pwyllgor, i'w gynnal ar 29 Medi 2026.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

317. Adroddiadau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Archwilio Cymru

Penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd darparu pum adroddiad i Aelodau'r Pwyllgor, ac ymateb y rheolwyr iddynt lle bo hynny'n briodol, gan Archwilio Cymru: Y Blociau Adeiladu? Cynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau yng Nghymru (Ionawr 2026) - Cynlluniwyd y gwaith i roi darlun cyffredinol o sut mae cynghorau'n cynllunio eu gwariant cyfalaf ac er mwyn edrych am unrhyw faterion cyffredin i gynghorau a Llywodraeth Cymru eu hystyried. Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y materion canlynol:
----------------------	--

	• Yr angen i gynnal arolygon stoc a chyflwr asedau, a oedd gan y Cyngor y gallu i ymgymryd â'r gwaith yn fewnol, ac argaeledd cwmnïau arbenigol i gynorthwyo Cyngorau ledled Cymru gyda nhw. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid y byddai'n adrodd yn ôl i'r Aelodau ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â gwaith rheoli asedau yn y Cyngor, gan gynnwys a oedd unrhyw waith yn cynnwys mewnbwn allanol. 2. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Heriau recriwtio a chadw – y bobl iawn ar yr adeg iawn? (Ebrill 2026) - Edrychodd yr adroddiad ar heriau recriwtio a chadw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hyn yn cynnwys pa mor dda y mae'r Cyngor yn deall yr heriau, yr hyn yr oedd yn ei wneud mewn ymateb, a sut mae'n adolygu gwerth am arian ei ddulliau. Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y materion canlynol: • Nododd yr Is-gadeirydd yn y lle cyntaf fod recriwtio a chadw yn faterion arwyddocaol i bob Cyngor. Croesawodd yr adroddiad, yr argymhellion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Byddai'r Pwyllgor yn gallu olrhain y broses o'u rhoi ar waith. Nododd hefyd fod yr adroddiad yn tynnu sylw at faterion eraill megis risg gorfforaethol, yr effaith ar ofal cymdeithasol, gallu trawsnewid, a chynaliadwyedd ariannol. Roedd y cyfan yn dibynnu ar ba mor effeithiol yw'r Cyngor wrth recriwtio, sut mae'n sicrhau gwerth am arian, a sut mae'n mesur effaith rhai o'r camau y cytunwyd arnynt. Gofynnodd pa swyddi critigol sydd anoddaf i recriwtio iddynt ar hyn o bryd a sut mae'r Cyngor yn ceisio mesur effaith weithredol fesuradwy peidio â recriwtio i'r swyddi hynny? Mewn ymateb, pwysleisiodd swyddogion bwysigrwydd cryfhau prosesau adrodd a gweledd yr heriau ar lefel gorfforaethol, defnyddioldeb taliadau atodol ar sail y farchnad, pwysigrwydd bod yn arloesol gyda swyddi anodd eu llenwi, yn enwedig mewn swyddi ble mae'n fwy heriol oherwydd cystadleuaeth gyda'r sector preifat, a phwysigrwydd strategaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu. Pwysleisiodd swyddogion hefyd yr arbedion posibl sy'n gysylltiedig â mapio prosesau, pwysigrwydd llwybrau, nid dim ond bod yn ymatebol pan fydd problemau'n codi, ac esblygu ymagwedd y Cyngor at brentisiaethau a chynlluniau graddedigion. • Gofynnodd yr Is-gadeirydd a oedd gan Archwilio Cymru farn am y ffordd orau o fesur gwerth am arian. Mewn ymateb, nododd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru fod cydweithwyr yn mynychu cyfarfod rhwydwaith Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol (HRD) ar 25 Medi i drafod gwerth am arian (beth mae'n ei olygu, beth i edrych arno, ac enghreifftiau o arferion da).
--	---

	3. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru (30 Mehefin 2026) - Roedd yr adroddiad hwn yn darparu manylion am waith arfaethedig a diweddar lle bo'n berthnasol gan Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Nododd yr Is-gadeirydd y byddai'r adroddiad yn ddefnyddiol wrth gynllunio gwaith y Pwyllgor wrth symud ymlaen. 4. Ariannu Cynghorau – Sut mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cynghorau (Gorffennaf 2026) – Roedd yr adroddiad hwn yn edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddau ar hugain prif gyngor yng Nghymru, gan gynnwys y setliad llywodraeth leol blynyddol a grantiau cyfyngedig. Edrychodd hefyd ar ba mor dda y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynghorau gyda'u cynllunio ariannol a sut mae'n amcangyfrif costau cyfrifoldebau newydd a roddir ar gynghorau. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i osod gerbron y Senedd, bod ffurflen ymateb rheolwyr wedi'i chyhoeddi ond nad oedd ymateb i'r argymhellion eto, ac y byddai'n cael ei drafod mewn cyfarfod Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn y dyfodol. Bydd y ddolen i'r cyfarfod hwnnw yn cael ei rhannu â'r Aelodau pan fydd ar gael. Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid fod canfyddiadau'r adroddiad yn cyd-fynd â llawer o'r profiadau y mae pobl sy'n gweithio ym maes cyllid o fewn awdurdodau lleol yn eu profi wrth ddelio â Llywodraeth Cymru ac yn adlewyrchu'r berthynas waith dda iawn sy'n bodoli ar lefel swyddogion rhwng staff cyllid a staff Llywodraeth Cymru. 5. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Addasiadau Tai (Medi 2026) – Roedd yr adroddiad hwn yn edrych ar sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynllunio ac yn cyflwyno addasiadau tai i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i aros yn eu cartrefi. Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd yr Is-gadeirydd, er bod yr adroddiad yn achos pryder ar un lefel, bod Archwilio Cymru wedi derbyn ymateb y rheolwyr a'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Nododd hefyd y Wybodaeth Gyd-destunol Ychwanegol (Atodiad I) a ddarparwyd ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor, a bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ymhell o fod ar ei ben ei hun yn wynebu'r materion a nodwyd gydag addasiadau tai.
--	---

	Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i Archwilio Cymru am yr adroddiad, y canfyddiadau a'r argymhellion, a nododd fod y Cyngor yn canolbwyntio'n drylwyr iawn ar gyflawni'r gwelliannau a nodwyd, a bod y rhain yn cyd-fynd i raddau helaeth â dadansoddiad y Cyngor ei hun. Roedd hi'n cydnabod bod amseroedd aros am grantiau cyfleusterau anabl yn parhau i fod yn rhy hir ac y dylai preswylwyr dderbyn addasiadau yn gyflymach. Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd Aelod ei bod hi'n ymddangos bod yna systemau cyfochrog o welliannau rhwng awdurdodau lleol ar y naill law a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) ar y llaw arall, rhai ohonynt yn eithaf mawr gydag arbenigedd sylweddol. Felly, awgrymodd y gallai fod lle i'r Cyngor weithio'n agosach mewn partneriaeth ag RSLs. Cododd Aelod Lleyg gwpl o faterion mewn perthynas ag adroddiadau thematig Cymru gyfan Archwilio Cymru a'r rhai a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru a sut mae awdurdodau lleol yn defnyddio ac yn craffu ar y canfyddiadau a'r argymhellion, ac yn cael eu hysbysu am ganlyniadau, lle bo hynny'n briodol. I gloi'r eitem agenda hon, nododd yr Is-gadeirydd fod dwyl thema wedi dod i'r amlwg o'r holl adroddiadau: pwysigrwydd hanfodol a) cynllunio hirdymor ar gyfer awdurdodau lleol; a b) mesur canlyniadau ac effaith. Ychwanegodd ei fod yn credu bod y rhain yn themâu y mae angen i'r Pwyllgor feddwl amdanynt trwy gydol y flwyddyn ariannol hon. Mewn ymateb, cydnabu'r Prif Weithredwr nad oedd y fframwaith perfformiad wedi cyrraedd lle'r hoffai'r Cyngor iddo fod, ond bod gallu strategol perfformiad penodol wedi'i roi ar waith i'w alluogi i ailgynllunio ei ddull gweithredu, y mae rhan fawr ohono yn ymwneud â mesur canlyniadau ac effaith. Nododd hefyd y byddai'n croesawu ymgysylltiad gan y pwyllgor wrth ddatblygu fframwaith perfformiad newydd yn hytrach na chyflwyno'r ddogfen i'r Aelodau pan mae eisoes yn orffenedig. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor yr Adroddiadau gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Archwilio Cymru ac Ymatebion Rheoli'r Cyngor.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

**318. Cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg
2026-27**

Penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio o fewn y Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg cymeradwy 2026-27. Mewn ymateb i'r adroddiad, diolchodd yr Is-gadeirydd i'r tîm am gynhyrchu adroddiad mor gryno a nododd y sefyllfa gadarnhaol o ran cynnydd yn erbyn y cynllun. Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd i'r Pwyllgor fod y tîm ar y trywydd iawn i gyflawni'r cynllun yn y flwyddyn ac ni chynigiwyd unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun archwilio ar hyn o bryd. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg 2026-27 ar 31 Awst 2026.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

319. Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol

Penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor ar argymhellion archwilio mewnol a wnaed, a weithredwyd ac sydd heb eu cwblhau ar 31 Awst 2026 ac ystyried yr wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS). Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau y materion canlynol: • Caffael (Barn Gyfyngedig - Canolig): Roedd y mater yn ymwneud â rhoi system ar waith i adnabod gwariant cyflenwyr yn hawdd pan nad oedd contract sefydledig rhwng y Cyngor a'r cyflenwr yn ei le. Mae caffael a chyllid wedi bod yn edrych ar hyn ac wedi cytuno bod system yn angenrheidiol. Mae'r galluogrwydd gan y system gyllid ond byddai angen i'r sawl sy'n cynnal y
----------------------	--

	system ddarparu cyngor ar sut y byddai'n gweithio yn ymarferol. Ni fydd cost fawr ynghlwm wrth sefydlu hyn; yr anhawster mwyaf yw sicrhau amser yr ymgynghorydd gyda'r ddarparwr i alluogi'r newid. Cydnabu'r Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd fod hyn wedi bodoli ers peth amser ac na fyddai modd cwblhau erbyn y dyddiad diwygiedig ar gyfer gweithredu sef 30 Medi 2026. • Cynllunio Parhad Busnes (Barn Gyfyngedig - Canolig): Roedd y mater hwn yn ymwneud â sicrhau bod y Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol yn cael ei adolygu, ei ddiweddarau a'i ddarparu. Ym mis Gorffennaf 2026, roedd ymgynghorwyr allanol wedi cael eu contractio i gwblhau 'Gwiriad lechyd' ar yr holl waith Cynllunio Argyfwng, Rheoli Parhad Busnes a Diogelwch Amddiffynnol ar draws y cyngor. Y dyddiad cwblhau targed ar gyfer yr adolygiad hwn a chynhyrchu'r adroddiad canlyniadol oedd Awst 2026. Nodwyd bod dyddiad diwygiedig - 30 Medi - wedi'i gytuno a byddai RIAS yn gwirio a yw wedi'i gwblhau ar ôl hynny. • Staff asiantaeth (Barn Resymol - Uchel): Roedd y mater hwn yn ymwneud â'r camau sy'n ofynnol er mwyn defnyddio gwasanaethau ddarparwyr asiantaeth eraill os nad oedd ymgeiswyr addas ar gael trwy'r prif gontract asiantaeth. Roedd hyn yn berthnasol ar draws y Cyngor ond yn benodol i ddarparwyr asiantaeth a ddefnyddir o fewn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. O fis Medi 2026, nodwyd y byddai'r Cyngor yn defnyddio fframwaith arbenigol ar gyfer staff gwaith cymdeithasol, felly bydd pob cais asiantaeth yn mynd trwy'r prif gontract asiantaeth ac os yw'n aflwyddiannus, bydd y fframwaith hwn yn cael ei ddefnyddio yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor. Roedd defnyddio'r fframwaith yn cael ei gyflwyno yn erbyn cefndir o ostyngiadau parhaus yn y defnydd o asiantaethau. Nodwyd bod dyddiad diwygiedig – 31 Hydref – wedi'i gytuno a byddai RIAS yn gwirio a yw wedi'i gwblhau ar ôl hynny. • Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen (Barn Gyfyngedig): Nododd Aelod fod y farn gyfyngedig yn achos pryder o ystyried maint ac ystod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt o dan y cytundeb partneriaeth. Gofynnodd a oedd yr adroddiad wedi'i gyfeirio at y pwyllgor craffu priodol. Gofynnodd hefyd a ellid rhannu'r adroddiad â'r Aelodau. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu'r cytundeb partneriaeth gyda Counterculture Partnership, sefydliad Ymgynghori a Gwasanaethau Busnes sy'n helpu sefydliadau diwylliannol, addysgol a chreadigol. Nododd hefyd y byddai adroddiad am Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn cael ei gyflwyno i bwyllgor craffu yr hydref hwn. Gofynnodd yr Is-gadeirydd am fwy o fanylion am yr hyn sydd wedi'i wneud yn barod pan fo adroddiad yn nodi'r sefyllfa bresennol gyda chamau y cytunwyd arnynt. Dylid cael gwybodaeth ynghylch a yw pethau'n parhau i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y dyddiad targed y cytunwyd arno. Ychwanegodd ei fod yn credu bod yr adroddiad yn gweithio'n dda ar gyfer olrhain cynnydd, ond roedd yn dal i bryderu bod rhai o'r camau hyn yn mynd yn ôl sawl blwyddyn, a bod dyddiadau y cytunwyd arnynt yn parhau i symud. Roedd eisiau
--	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 24 MEDI 2026

	sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y stori lawn a'r sicrwydd angenrheidiol. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ac ystyriodd yr wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

320. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025-26

Penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26 a'i gyflwyno i'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor ystyried a yw'n grynodedd cytbwys o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor. Roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor. Dangosodd yr adroddiad sut y cyflawnodd y Pwyllgor ei gylch gorchwyl yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor fel y nodir gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mewn ymateb i'r adroddiad, diolchodd Aelod Lleyg i Bennaeth RIAS am baratoi'r adroddiad ar ran y Pwyllgor a thynnodd sylw at nifer fach o faterion sydd heb eu datrys fel rhan o'r broses o gwblhau'r adroddiad terfynol ar gyfer y Cyngor. <u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26 i'w gyflwyno i'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor penderfynu a yw'n grynodedd cytbwys o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

--	--

321. Hunanasesiad 2025-26

Penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad hwn oedd ceisio barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr hunanasesiad drafft ar gyfer 2025-26. Dyma bumed adroddiad hunanasesu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Un o ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yw i'r Cyngor wneud a chyhoeddi adroddiad hunanasesu unwaith bob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hunanasesu hefyd yn gweithredu fel adroddiad blynyddol y Cyngor, yr adroddiad lles a'r adroddiad dyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau y materion canlynol: • Gofynnodd Aelod Lleyg am ddiweddariad ar ddau ymrwymiad: 1) cyflwyno mewnrwyd staff cwbl ddwyieithog erbyn Gorffennaf 2026; a 2) lansio'r ffurflen/proses gwynion a chanmoliaeth newydd ym mis Mehefin 2026. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol fod y fewnrwyd ddwyieithog newydd i staff ar waith ond bod hynny wedi digwydd ar ôl i'r adroddiad gael ei ddrafftio, ac er nad oedd hi wedi cael diweddariad ar y ffurflen/proses gwynion a chanmoliaeth newydd, fe fyddai'n gwirio ac yn diweddu'r adroddiad yn unol â hynny. • Cynigiodd Aelod Lleyg y dylid darparu cynllun gweithredu neu nodiadau esboniadol pan fo ymrwymadau wedi'u huwchleuo fel rhai statws RAG 'COCH'. Nododd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) wedi cynnig y byddai'n briodol darparu naratif mwy cadarn sy'n esbonio pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw. Hefyd, roedd COSC wedi cynnig y dylai'r naratif gynnwys ambell i gam gweithredu allweddol i esbonio beth fyddai'r camau nesaf. Cadarnhaodd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol fod hyn yn rhywbeth a oedd yn cael ei ystyried ar gyfer y drafft terfynol. • Nododd Aelod yn y lle cyntaf ei fod yn cydnabod y gwaith a oedd wedi mynd i mewn i'r adroddiad ac, yn ail, y byddai'n croesawu unrhyw symudiad i ddarparu adroddiad mwy cryno, yn enwedig o ystyried anghenion preswylwyr. Yn drydydd, cynigiodd fod angen esbonio'r gwahaniaeth yn gliriach rhwng unrhyw fesurau perfformiad a'r hunanasesiad. Awgrymodd y gallai hyn fod yn ddryslyd i breswylwyr. O ystyried natur y drafodaeth gyhoeddus a'r diffyg ymddiriedaeth mewn rhai sefydliadau a gwleidyddion yn ehangach, gallai ddychmygu nifer o breswylwyr yn herio'r casgliadau pe baent yn edrych ar yr adroddiad ac yn gweld yr asesiad da ar draws yr amcanion lles.
----------------------	---

	Awgrymodd ei bod yn angenrheidiol cael sicrwydd bod y fethodoleg a arweiniodd at yr asesiad da yn hollol gadarn. Mewn ymateb, cydnabu'r Prif Weithredwr fod problemau sylweddol ynghylch y ffordd orau i gyfathrebu â'r cyhoedd mewn perthynas ag adroddiadau o'r math hwn. Yn benodol, nododd fod y system goleuadau traffig yn ymddangos yn un dimensiwn, bod y mân wahaniaethau yn anodd i'w cyfleu, a bod cyfathrebu'r ffaith fod rhai materion yn rhai cenedlaethol yn hytrach na lleol, bob amser yn her. Cynigiodd fod angen rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r ffordd orau o gyfathrebu am yr adroddiad. • Croesawodd Aelod yr astudiaethau achosion a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad, a nododd fod straeon personol yn rhoi rhywfaint o flas o'r hyn yr oedd y Cyngor yn ceisio ei gyflwyno ac roedd hynny'n awgrymu y byddai trigolion yn gallu uniaethu â rhai ohonynt. <u>PENDERFYNWYD:</u> Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad hunanasesu drafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 a darparodd farn arno. Roedd yr adroddiad wedi'i ategu gan wybodaeth am berfformiad yn Atodiad 2.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

322. Blaenraglen Waith 2026-27

Penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2026-27, yn enwedig yr eitemau a drefnwyd i'w cyflwyno yn y cyfarfod nesaf, a gynhelir ar 19 Tachwedd 2026. Nodwyd bod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 22 Ebrill 2027 ond y byddai'r dyddiad hwnnw yn ystod y cyfnod cyn-etholiadol. Cynigiwyd y dylid ystyried amseriad y cyfarfod, a'r eitemau agenda ar ei gyfer, yn dilyn y cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer Ionawr 2027 a bydd y canlyniad yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor. Cynigiodd yr Is-gadeirydd y dylid ychwanegu adroddiad ychwanegol sy'n diweddaru Aelodau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun archwilio mewnol at y rhestr o eitemau agenda arfaethedig ar gyfer y cyfarfod ar 19 Tachwedd 2026. <u>PENDERFYNWYD:</u>
----------------------	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 24 MEDI 2026

	Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith wedi'i diweddarau ar gyfer 2026-27.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

323. Eitemau Brys

Penderfyniad a wnaed	Dim
Dyddiad gwneud y penderfyniad	24 Medi 2026

I wyllo dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen [hon](#).

Daeth y cyfarfod i ben am 11:56.